Y dyfarnwr penfoel

(tegwch / gonestrwydd / doethineb / dewrder)

Pan fyddwch chi'n gwylio gêm bêl-droed a fyddwch chi'n cymryd sylw o'r dyfarnwr neu'r reffarî? Dyma'r un sy'n cael ei gondemnio gan bawb – y chwaraewyr, y rheolwyr a'r dorf, yn enwedig os bydd wedi dyfarnu yn erbyn eu tîm. Pwy, ar wyneb daear, fyddai'n meiddio mynd yn ddyfarnwr? Un o'r rhai mwyaf enwog yn ein dyddiau ni yw Pierluigi Collina o'r Eidal. Ef ydi'r dyfarnwr penfoel â'r llygaid glas treiddgar. Yn ôl pob tebyg mae'n un o ddyfarnwyr gorau'r byd ac ef a reolodd y gêm rhwng Brazil a'r Almaen yn rownd derfynol Cwpan y Byd yn 2002. Ei gêm gyntaf yn y rownd gyntaf o Gwpan y Byd yn Japan (2002) oedd y gêm honno rhwng Lloegr a'r Ariannin.

Roedd wedi edrych ymlaen at gael dyfarnu rhwng y ddau dîm gan y byddai llygaid y byd i gyd ar y gêm honno. Roedd yn rhaid iddo gael gêm dda neu ni fuasai'n mynd ymlaen i'r rowndiau oedd yn dilyn. Roedd y tyndra rhwng y ddau dîm yn llawn o hanes y gorffennol. Y gôl honno y sgoriodd Diego Maradona â'i law, y 'mano di dois' fel y galwodd hi – llaw Duw. Wedyn David Beckham yn cael ei anfon oddi ar y cae ac, wrth gwrs, y rhyfel rhwng y ddwy wlad dros y Malvinas. Beth bynnag am y gorffennol rhwng y ddwy wlad cafodd Collina gêm dda. Roedd pethau'n argoeli'n dda ar gyfer y rownd derfynol.

Er mwyn bod yn ddyfarnwr da mae nifer o bethau sy'n gwbl angenrheidiol yn ôl Collina. Mae'n rhaid bod yn ffit gan fod pob dyfarnwr yn rhedeg mwy o lawer na'r un chwaraewr ar y cae. Mae'n rhaid ymarfer yn gyson a rhedeg yn gyflym o fewn amser penodedig, e.e. rhedeg 2,700 metr a hynny mewn 12 munud neu redeg 200 metr mewn 32 o eiliadau. Mae'n rhaid hefyd cadw'r corff yn iach trwy fwyta bwydydd maethlon.

Yn ôl Collina, os bydd y gêm yn dechrau am dri o'r gloch yna bydd yn bwyta pryd tua chwarter wedi un ar ddeg y bore. Os ydi'r gêm gyda'r nos yna bydd yn bwyta pryd sylweddol tua hanner awr wedi hanner dydd ac yna pryd bychan oddeutu pump o'r gloch y pnawn.

Ond mae'r hyn yr ydych yn ei fwyta lawn cyn bwysiced â pha adeg o'r dydd. I Collina, sy'n Eidalwr, ei brif gynhaliaeth yw pasta gyda thomato ynghyd ag olew yr olewydden.

Yna, nid digon yw gwybod y rheolau, yn ôl Collina; mae'n rhaid bod yn barod i'w dehongli.

Un o'r rheolau sy'n creu anghydfod yn y gêm bêl-droed ydi rheol 11, ynglŷn â chamochri. Yr elfen bwysig yn y rheol hon ydi pa bryd mae chwaraewr yn ymyrryd efo'r chwarae. Gall chwaraewr fod mewn safle lle mae'n camochri ond os nad yw'n rhan o'r chwarae yna dylai'r dyfarnwr anwybyddu'r chwaraewr hwnnw. Y rhan bwysig o'r rheol hon yw 'ym marn y dyfarnwr'. Mae o'r farn hefyd y dylai pob dyfarnwr baratoi'i hun yn seicolegol cyn ac ar ôl pob gêm.

Gan fod y dyfarnwr erbyn heddiw yn llygaid y dorf ac yn llygaid y camerâu teledu sy'n gwylio pob eiliad o'r gêm mae'n rhaid iddo fod yn barod i gael ei feirniadu a'i gondemnio ac efallai y bydd y camera'n dod i'r penderfyniad fod y dyfarnwr yn gwbl anghywir. Mae'n rhaid iddo fyw efo'r condemniad hwnnw ar ôl i'r gêm ddiweddu.

Ym marn Collina mae'n rhaid rhoi mwy na chant y cant os ydych am fod yn ddyfarnwr sy'n haeddu dyfarnu rownd derfynol Cwpan y Byd. Unwaith yn ystod ei fywyd mae hyn yn digwydd i ddyfarnwr er fod pob un yn gobeithio yn dawel bach y bydd yn dod yn wir yn yr Almaen yn 2006. Ond go brin erbyn hyn!

Adnod: "Gwnaethost yn deg â mi yn fy achos." Salm 9:4

Gweddi: Helpa fi, O Dduw, i fod yn deg a chytbwys yn fy holl ymwneud â phobl. Amen.

Trafod:

- Beth yw eich agwedd chi tuag at ddyfarnwyr yn gyffredinol? Fuasech chi'n hoffi bod yn ddyfarnwr?
- Rhestrwch y pethau sy'n nodweddu dyfarnwr da.